

Arolygiad o Bractis Meddygon Teulu (Ile rhoddwyd rhybudd)

Meddygfa Bodowen, Treffynnon

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi

Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 28 Mehefin
2017

Dyddiad cyhoeddi: 29 Medi 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	16
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	23
4.	Beth nesaf?	25
5.	Sut rydym yn arolygu practisau meddygon teulu.....	26
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	27
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	28
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	29

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Pwyslais ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol.

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Darparu sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisiâu, safonau ac arferion.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Feddygfa Bodowen, Ffordd Helygain, Treffynnon, Sir y Fflint, CH8 7GA, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar 28 Mehefin 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys rheolwr arolygu AGIC (arweinydd yr arolygiad), adolygydd meddygon teulu, adolygydd cymheiriaid rheolwyr practis, ac adolygydd lleyg.

Bu AGIC yn archwilio sut roedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o bractisau meddygon teulu yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, gwelsom rywfaint o dystiolaeth nad oedd y practis yn cydymffurfio'n llawn â phob Safon Iechyd a Gofal ym mhob maes.

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd cleifion wrthym fod y staff yn eu trin ag urddas a pharch
- Roedd systemau cofnodi gwybodaeth a oedd yn dda yn gyffredinol, a phrosesau atgyfeirio da ar waith
- Canfuom ddilyniant da o ran y gofal, a gwnaed pob ymdrech i sicrhau y gallai cleifion weld yr un meddyg teulu ar gyfer pob ymgynghoriad lle bo'n bosibl
- Systemau cyfathrebu mewnol da
- Diwylliant agored a chynhwysol gydag ymgysylltiad staff da
- Gwasanaeth ymatebol gyda staff sy'n awyddus i wella ansawdd y ddarpariaeth ymhellach
- Cymysgedd sgiliau da o fewn y tîm clinigol, gyda chlinigwyr unigol yn cymryd rôl arweiniol yn eu maes arbenigedd
- Systemau rheoli a oedd yn dda yn gyffredinol, a goruchwyliaeth dda o'r gwasanaeth gan reolwyr

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Darparu rhagor o daflenni a llyfrynnau gwybodaeth yn Gymraeg
- Adolygu mynediad a chyfleusterau cyffredinol ar gyfer cleifion anabl a'r rheini ag anawsterau clywed
- Sefydlu grŵp cyfranogiad cleifion
- Trefnu hyfforddiant diogelu Lefel 3 ar gyfer yr holl staff clinigol
- Adolygu'r broses o gadw cofnodion ynghylch diogelu ac ymweliadau cartref

- Diweddarau'r pecyn sefydlu ar gyfer meddygon locwm
- Sicrhau bod yr holl ddrysau tân yn cael eu cadw ar gau bob amser a'u bod yn cau'n llawn ar eu rabedi
- Archebu gwelyau archwilio newydd
- Darparu gorchuddion addas ar gyfer rheiddiaduron
- Adolygu'r arfer o ddefnyddio'r man cyfagos i'r ystafelloedd ymgynghori fel man aros i gleifion sydd angen eu trosglwyddo i'r ysbyty mewn ambiwlans
- Adolygu ac archwilio nodiadau cleifion yn rheolaidd i sicrhau cywirdeb a chysondeb y cofnodion
- Sicrhau bod canllawiau crynhoi yn cael eu defnyddio'n gyson a threfnu hyfforddiant ychwanegol i'r staff sy'n ymwneud â'r broses hon
- Atgyfnerthu cyfathrebu o ran digwyddiadau arwyddocaol a sicrhau bod unrhyw ddysgu yn cael ei rannu â'r holl aelodau staff perthnasol
- Cynnal cofnod o gyfarfodydd tîm a chyfarfodydd partneriaid sy'n feddygon teulu

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Meddygfa Bodowen yn darparu gwasanaethau ar hyn o bryd ar gyfer tua 7,800 o gleifion yn ardal Treffynnon. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau meddygon teulu a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys rheolwr practis, pum meddyg teulu, uwch-ymarferydd nyrsio, dwy nyrs bractis, un cynorthwydd gofal iechyd dan hyfforddiant, un fferylllydd, staff y fferyllfa, ac wyth aelod o staff derbynfa/gweinyddol.

Mae'r practis yn darparu amrediad o wasanaethau, gan gynnwys:

Clinig mân afiechydon

Sgrinio ac adolygu asthma

Gwiriadau pwysedd gwaed

Sgrinio ac adolygu clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint

Gwiriadau pils a phigiadau atal cenhedlu

Brechiadau – arferol ac ar gyfer teithio

Profion gwddf y groth a chlinigau menyw iach

Cyngor deietegol

Ymweliadau dilynol therapi amnewid hormonau (HRT)

Gwiriadau iechyd cyffredinol

Cyngor diabetes

Atgyfeirio at y gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmegu

Sgrinio am glefyd y galon

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (pan fo'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Dyweddodd pobl wrthym eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff. Roedd gan y practis system ar waith i alluogi cleifion i leisio pryderon/cwynion, ac roedd y practis yn gallu dangos ei fod wedi ystyried adborth cleifion i wella gwasanaethau.

Cafwyd sylwadau cadarnhaol gan gleifion, yn enwedig ynglŷn â'u perthnasau â'r staff.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael safbwyntiau cleifion ynghylch y gwasanaethau a ddarperir. Hefyd, gwnaethom ddsbarthu holiaduron i'r cleifion eu cwblhau yn ystod yr ymweliad arolygu. Cwblhawyd cyfanswm o 30 holiadur. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Mae staff yn gymwynasgar iawn."

"Rwy'n gwbl hapus gyda'r gofal rwy'n ei dderbyn."

"Gallai'r oriau agor fod yn hirach."

"Gallai'r broses o gysylltu dros y ffôn fod yn haws wrth wneud apwyntiadau."

Cadw'n iach

Dyweddodd cleifion wrthym fod y staff yn siarad â nhw ac yn eu helpu i ddeall eu cyflyrau meddygol.

Canfuom fod cleifion yn cael eu hannog i gymryd cyfrifoldeb dros reoli eu hiechyd eu hunain trwy gael cyngor ar hyrwyddo iechyd gan staff a gwybodaeth ysgrifenedig yn y manau aros, ar y wefan, ac yn nhaflen wybodaeth y practis.

Roedd pobl â chyfrifoldebau gofalu yn derbyn cyngor a gwybodaeth am sefydliadau a gwasanaethau eraill a allai ddarparu cefnogaeth ar eu cyfer. Y rheolwr derbynfa oedd yr hyrwyddwr gofaluwr penodedig.

Roedd yr amgylchedd materol wedi cael ei addasu gymaint ag yr oedd modd i gadw cyfrinachedd a phreifatrwydd cleifion. Roedd y dderbynfa wedi cael ei gwahanu o'r man aros gan ddesg a sgriniau gwydr. Roedd hyn yn golygu bod staff y dderbynfa'n gallu siarad â chleifion a gwneud galwadau ffôn heb gael eu clywed a, thrwy hynny, roedd modd cadw rhywfaint o breifatrwydd a chyfrinachedd. Yn ogystal â hyn, dywedodd staff y dderbynfa wrthym eu bod hefyd yn gallu defnyddio man tawel o fewn y dderbynfa i drafod unrhyw faterion sensitif â chleifion pe bai angen.

Roedd y practis yn rhan o grŵp 'clwstwr'¹ lleol. Dywedwyd wrthym fod un o'r meddygon teulu, rheolwr y practis, ac uwch-ymarferydd nyrsio yn mynychu cyfarfodydd clwstwr ac yn defnyddio'r fforwm hwn fel modd o gynhyrchu gweithgareddau gwella ansawdd a rhannu arfer da.

Gofal ag urddas

Dywedodd cleifion wrthym fod y staff yn eu trin ag urddas a pharch. Gwelsom fod y staff yn cyfarch pobl mewn modd proffesiynol ond cyfeillgar wrth ddesg y dderbynfa, ac yn ystod sgysiau ffôn.

Roedd drysau ystafelloedd triniaeth ac ymgynghori unigol yn cael eu cadw ar gau pan oedd staff yn ymdrin â chleifion. Roedd sgriniau wedi'u gosod o gwmpas gwelyau archwilio hefyd. Roedd hyn yn golygu bod staff yn cymryd camau priodol i gynnal preifatrwydd ac urddas cleifion yn ystod ymgynghoriadau.

Roedd polisi ysgrifenedig ar y defnydd o hebryngwyr ac roedd rhai o'r staff wedi derbyn hyfforddiant priodol. Roedd yr hawl i wneud cais am hebryngwr wedi'i harddangos ar bosteri yn ardaloedd y cleifion ac mewn ystafelloedd ymgynghori/triniaeth. Gwnaethom awgrymu y dylid trefnu hyfforddiant ar gyfer yr holl aelodau staff sy'n ymgymryd â dyletswyddau hebryngwr.

Canfuom fod y toiledau yn y man aros yn ddigonol. Fodd bynnag, gwnaethom awgrymu y dylid ystyried, o ran unrhyw waith ailwampio yn y dyfodol, ail-leoli'r toiled anabl, sy'n cael ei ddefnyddio fel toiled i ddynion hefyd ar hyn o bryd, oherwydd gallai cleifion benywaidd sydd am ddefnyddio'r cyfleuster hwn deimlo'n anghyfforddus. Rydym yn argymhell yn gryf hefyd y dylai larwm galw

¹ Mae clwstwr practisau yn grŵp o feddygon teulu a phractisau, a bennir yn lleol gan fwrdd iechyd lleol unigol y GIG yng Nghymru. Maent yn dod â phractisau meddygon teulu, gwasanaethau nyrsio ardal ac eiddilwch, Iechyd Cyhoeddus Cymru, gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol a chymunedol, a'r sector gwirfoddol at ei gilydd.

gael ei osod yn y toiled anabl, pe bai angen cymorth ar unrhyw gleifion sy'n defnyddio'r cyfleuster hwn.

Gwnaethom awgrymu y dylai'r ffurflen cofrestru cleifion newydd gael ei diwygio i gynnwys cwestiynau penodol ynglŷn ag amrywiaeth ac ailbennu rhywedd yn benodol, a dylai'r holl staff dderbyn hyfforddiant ynglŷn â hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai hyfforddiant gael ei drefnu ar gyfer yr holl aelodau staff sy'n ymgymryd â dyletswyddau hebryngwr.

Rydym yn argymhell yn gryf hefyd y dylai larwm galw gael ei osod yn y toiled anabl, pe bai angen cymorth ar unrhyw gleifion sy'n defnyddio'r cyfleuster hwn.

Gwybodaeth cleifion

Roedd gwybodaeth i gleifion am wasanaethau'r practis ar gael ar ffurf taflen ac ar wefan y practis, a oedd o safon uchel iawn ac yn fanwl. Roedd hyn yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol, gan gynnwys manylion tîm y practis, oriau agor, trefniadau tu allan i oriau, y system apwyntiadau, a'r weithdrefn ar gyfer caffael presgripsiynau amlroddadwy.

Roedd amrediad o wybodaeth wedi'i harddangos ac yn hawdd ei chyrraedd yn y man aros. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am grwpiau cymorth lleol a chynghor ar hybu iechyd a hunanreoli cyflyrau iechyd. Dylai'r practis ystyried gosod bwrdd gwybodaeth dynodedig ar gyfer arddangos gwybodaeth yn benodol i ofalwyr.

Gwnaethom awgrymu y dylai'r practis ystyried gosod monitor teledu o fewn y man aros er mwyn arddangos gwybodaeth ynglŷn â hyrwyddo iechyd a gwybodaeth arall a allai fod yn ddefnyddiol i gleifion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis ystyried gosod bwrdd gwybodaeth dynodedig ar gyfer arddangos gwybodaeth yn benodol i ofalwyr.

Gwnaethom awgrymu y dylai'r practis ystyried gosod monitor teledu o fewn y man aros er mwyn arddangos gwybodaeth ynglŷn â hyrwyddo iechyd a gwybodaeth arall a allai fod yn ddefnyddiol i gleifion.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedwyd wrthym fod nifer o siaradwyr Cymraeg wedi'u cofrestru â'r feddygfa a bod dau aelod o staff cyfredol yn siarad Cymraeg. Canfuom fod diffyg gwybodaeth (posteri a thafleuni) yn Gymraeg. Cawsom ein hysbysu y gellid cael mynediad at wasanaethau cyfieithu ar gyfer pobl a oedd angen gwybodaeth neu wasanaethau mewn ieithoedd eraill.

Dywedodd rhai o'r cleifion wrthym eu bod yn cael trafferth clywed eu henwau'n cael eu galw o bryd i'w gilydd ar y system seinydd yn y man aros. Dywedwyd wrthym fod hyn yn dibynnu ar b'un a oedd pobl yn cael eu galw drwy ddefnyddio ffôn neu glustffonau. Cytunodd rheolwr y practis i fonitro'r sefyllfa a chymryd camau gweithredu priodol i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau.

Nid oedd gan y practis ddolen sain. Dywedwyd wrthym fod y practis yn ystyried gosod system ddolen sain i gynorthwyo cyfathrebu â chleifion ag anawsterau clywed.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod gwybodaeth (posteri a thafleuni) ar gael yn Gymraeg.

Gofal amserol

Roedd modd i gleifion wneud apwyntiadau ymlaen llaw, o ddydd Llun i ddydd Gwener, neu ffonio'r feddygfa, neu alw i mewn o 8.30am, i gael apwyntiad ar gyfer y diwrnod hwnnw.

Hefyd, gallai cleifion drefnu apwyntiadau ar-lein drwy ddefnyddio'r gwasanaeth Fy Iechyd Ar-Lein.²

Roedd y tîm nyrsio'n gweld cleifion gyda mân salwch neu salwch cyffredinol. Roedd y tîm nyrsio hefyd yn cynnal nifer o glinigau i gleifion â chyflyrau iechyd cronig er mwyn iddynt gael y gofal a'r driniaeth roedd eu hangen arnynt heb orfod gweld meddyg.

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn profi oedi yn aml wrth geisio cael ateb dros y ffôn gan y practis i drefnu apwyntiad. Gwnaethom argymhell y dylai'r

²<https://www.myhealthonline-inps.wales.nhs.uk/mhol/home.jsp>

practis archwilio ffyrdd o'i wneud yn haws i gleifion drefnu apwyntiadau dros y ffôn.

Cawsom ein hysbysu gan gleifion nad yw'r staff yn rhoi gwybod i gleifion bob amser ynglŷn ag amseroedd aros neu unrhyw oediadau o ran trefnu iddynt weld meddyg neu nyrs. Dywedodd rheolwr y practis wrthym y byddai'n atgoffa staff y dderbynfa i roi gwybod i gleifion ynglŷn â'r amseroedd aros wrth iddynt gyrraedd, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt ynglŷn ag unrhyw oediadau.

Canfuom fod atgyfeiriadau i arbenigwyr eraill yn cael eu gwneud yn brydlon.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Cawsom ein hysbysu bod tîm y practis yn adnabod y cleifion yn dda ac yn gwneud addasiadau yn ôl anghenion unigol pobl ar sail y wybodaeth hon.

Roedd y practis wedi'i leoli mewn adeilad a adeiladwyd at y diben. Roedd mynediad i'r anabl i'r adeilad yn dda. Roedd yr holl ystafelloedd ymgynghori wedi'u lleoli ar y llawr daear.

Roedd man parcio ar wahân i staff a chleifion a oedd yn gysylltiedig â'r practis, gyda dau fan parcio penodedig i bobl ag anabledd. Roedd y manau hyn wedi'u lleoli mewn man wedi'i nodi gydag arwyddion parcio ar gyfer staff, a allai ddrysu rhai cleifion. Gwnaethom argymell y dylid gosod arwyddion gwell i nodi argaeledd y manau parcio hyn at ddefnydd y cleifion, neu dylid ystyried darparu man parcio anabl o fewn y man parcio dynodedig ar gyfer cleifion.

Gwnaethom argymell y gellid ystyried darparu cadeiriau mwy addas yn y man aros ar gyfer pobl hŷn neu bobl ag anawsterau symudedd.

Gwelsom fod cloch ar ddesg y dderbynfa i bobl alw am gymorth. Er hynny, nid oedd cloch yn y man is ar ddesg y dderbynfa, sy'n caniatáu mynediad i bobl anabl, a gallai hyn felly gael effaith negyddol ar rai cleifion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid ystyried darparu cadeiriau mwy addas o fewn y man aros ar gyfer pobl hŷn neu bobl gydag anawsterau symudedd.

Dylai cloch alw gael ei rhoi yn y man is ar ddesg y dderbynfa sy'n caniatáu mynediad i bobl anabl.

Hawliau pobl

Tudalen 13 o 37

Roedd y practis wedi gwneud trefniadau i wneud gwasanaethau'n hygyrch i gleifion â gwahanol anghenion a gofynion iaith, fel y disgrifir uchod.

Dywedodd staff mai anaml y byddai cleifion yn gofyn am iaith ar wahân i'r Saesneg. Fodd bynnag, roedd rhai o'r staff, gan gynnwys un o'r meddygon teulu, yn siarad Cymraeg. Yn ogystal, pe bai cleifion nad oeddent yn siarad Saesneg yn dod i'r practis, byddai gan y staff fynediad at wasanaethau cyfieithu. Dywedodd y staff hefyd fod cleifion nad ydynt yn siarad Saesneg fel arfer yn mynychu yng nghwmni perthnasau sy'n gallu cyfieithu sgysiau. Fodd bynnag, dylid nodi bod gorddibyniaeth ar berthnasau i gyfieithu yn gallu effeithio ar gyfrinachedd cleifion a gwneud rhai o gleifion yn amharod i siarad yn agored yn ystod ymgynghoriadau.

Gwrando a dysgu o adborth

Roedd gweithdrefn gwyno ffurfiol ar waith a oedd yn cydymffurfio â gofynion 'Gweithio i Wella'.³ Roedd gwybodaeth am sut i wneud cwyn yn cael ei dangos yn y man aros/derbynfa ac roedd hefyd yn y daflen wybodaeth i gleifion. Roedd taflenni gwybodaeth a phosteri 'Gweithio i Wella' ar gael yn y dderbynfa/man aros hefyd.

Rhoddir pwyslais ar ymdrin â chwynion yn llygad y ffynnon er mwyn datrys materion mor gyflym â phosibl ac osgoi unrhyw angen am uwchgyfeirio. Roedd yr holl gwynion yn cael eu cofnodi, p'un a dderbyniwyd ar lafar neu'n ysgrifenedig. Tynnwyd sylw rheolwr y practis at bob cwyn, a fyddai'n ymdrin â hi yn unol â pholisi cwynion y practis.

Dylai'r practis ystyried sefydlu grŵp cyfranogiad cleifion fel modd ychwanegol o gasglu adborth am y gwasanaeth a ddarperir. Gallai hyn weithredu hefyd fel system ar gyfer rhannu gwybodaeth am gynlluniau'r gwasanaeth ar gyfer y dyfodol.

³ Mae Gweithio i Wella yn broses ar gyfer ymdrin â chwynion, hawliadau a digwyddiadau, a elwir gyda'i gilydd yn 'bryderon'. Mae hyn yn cynrychioli cryn newid diwylliant i'r GIG yng Nghymru yn y ffordd y mae'n ymdrin â phethau sy'n mynd o'u lle, gan gyflwyno dull unigol a chyson ar gyfer graddio ac ymchwilio i bryderon, yn ogystal â mwy o dryloywder, a mwy o gysylltiad â'r unigolyn sy'n lleisio'r pryder.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis ystyried sefydlu grŵp cyfranogiad cleifion.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gwelsom fod trefniadau ar waith yn y practis i hybu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Canfuom dîm o staff a oedd yn canolbwyntio ar y claf ac yn ymroddedig i ddarparu gwasanaeth o safon uchel i'w cleifion.

Roedd gwybodaeth ar gael i gleifion i'w helpu i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u lles eu hunain.

Roedd trefniadau addas ar waith i sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu rhagnodi a'u dosbarthu mewn modd diogel ac i ddysgu yn sgil unrhyw ddigwyddiadau diogelwch cleifion. Roedd y sampl o gofnodion cleifion y gwnaethom eu hadolygu o safon dda ar y cyfan.

Roedd system gadarn ar waith ar gyfer cyfathrebu mewnol i sicrhau nad oes unrhyw oedi diangen wrth brosesu atgyfeiriadau, gohebiaeth a chanlyniadau profion.

Roedd polisïau diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed ar waith, ac roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant ynghylch y rhain.

Mae asesiadau risg cyffredinol a mwy penodol yn cael eu cynnal, a rhoddwyd camau gweithredu ar waith ar gyfer unrhyw feysydd y nodwyd bod angen sylw arnynt.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn ystod taith o gwmpas adeilad y practis, canfuom fod yr holl fannau yr oedd gan y cleifion fynediad atynt yn lân ac yn glir o annibendod, a oedd yn lleihau'r perygl o faglu neu syrthio. Roedd adeilad y practis wedi'i gynnal a'i gadw'n addas, y tu allan a'r tu mewn.

Roedd asesiadau risg cyffredinol a mwy penodol yn cael eu cynnal yn rheolaidd gan reolwr y practis i helpu i gynnal diogelwch yn y practis.

Canfuom nad oedd rhai o'r gwelyau archwilio yn rhai o'r ystafelloedd ymgynghori yn briodol gan eu bod wedi eu gosod ar y wal ac nid oedd yn bosibl addasu eu uchder. Roedd hyn yn ei gwneud hi'n anodd i bobl gydag anawsterau symudedd gael mynediad atynt, yn ogystal â rhwystro mynediad staff clinigol o'r ddwy ochr, yn enwedig mewn sefyllfa argyfwng. Dylid ystyried rhoi gwelyau archwilio newydd.

Gwelsom arwyddion rhybuddio wyneb poeth uwch ben y rheiddiaduron o fewn y man aros a'r coridorau. Gwelsom hefyd fod y rheiddiaduron o fewn manau rhai o'r coridorau ar lefel isel, a oedd yn cynyddu'r risg y byddai pobl yn bwrw eu coesau yn eu herbyn. Gwnaethom argymhell y dylid ystyried darparu gorchuddion addas ar y rheiddiaduron i leihau'r perygl o achosi niwed i gleifion a'r staff.

Cawsom ein hysbysu y gofynnir i unrhyw gleifion yr oedd angen eu trosglwyddo i'r ysbyty mewn ambiwlans eistedd yn y man aros bach ger yr ystafelloedd ymgynghori. Er nad oedd unrhyw un yn aros yn y man hwn ar adeg ein harolygiad, roeddem yn bryderus na fyddai cleifion sy'n aros yn y man hwn yn cael eu goruchwyllo neu eu monitro'n briodol gan nad oeddent o fewn llinell olwg staff y dderbynfa. Dylai'r arfer hwn gael ei adolygu, a dylid ystyried defnyddio un o'r ystafelloedd ymgynghori ar gyfer cleifion o'r fath, ac, os nad yw perthynas neu ofalwr yn bresennol, dylai aelod o'r staff aros â'r claf nes iddo gael ei drosglwyddo i'r ysbyty. Byddai hyn yn sicrhau bod ei gyflwr yn cael ei fonitro'n agos, a byddai hefyd yn sicrhau bod ei urddas yn cael ei gynnal.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid ystyried rhoi gwelyau archwilio newydd.

Dylid rhoi gorchuddion addas ar y rheiddiaduron i leihau'r perygl o achosi niwed i'r cleifion a'r staff.

Dylai'r practis adolygu'r defnydd o'r man ger yr ystafelloedd ymgynghori fel man aros ar gyfer y cleifion y mae angen eu trosglwyddo i'r ysbyty mewn ambiwlans.

Atal a rheoli heintiau

Cadarnhaodd y staff fod ganddynt fynediad at gyfarpar diogelu personol fel menig a ffedogau untro plastig er mwyn lleihau croes-heintio. Roedd yr ardaloedd triniaeth glinigol a welsom yn lân yn ôl pob golwg.

Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael yn y manau clinigol a chyfleusterau toiled. Roedd digon o hylif dadheintio dwylo ar gael o amgylch y practis.

Gwelsom fod gwastraff wedi cael ei ddioli a'i roi mewn bagiau/cynwysyddion o wahanol liwiau er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei storio a'i waredu'n gywir. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio'n ddiogel nes y gellid ei gasglu'n ddiogel. Roedd contract ffurfiol ar waith ar gyfer casglu a gwaredu gwastraff.

Roedd diffyg biniau a weithredir â throed o fewn rhai manau o'r practis. Yn benodol, rydym yn argymhell y dylid darparu biniau glanweithiol addas a weithredir â phedal throed ym mhob toiled, a dylai bin glanweithiol mwy addas a weithredir â phedal troed gael ei osod yn y man aros yn lle'r bin gwastraff presennol.

Roedd polisi rheoli heintiau clir a manwl ar waith. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gyfrifol am gyflawni asesiadau o'u hamgylchedd gwaith eu hunain er mwyn rheoli risgiau heintiau, a'r uwch-ymarferydd nyrsio oedd yn gyfrifol am oruchwylio'r broses yn gyffredinol.

Roedd rheolwr y practis yn cadw cofrestr o statws imiwneiddio Hepatitis B y staff. Roedd hyn yn dangos bod system briodol ar waith i sicrhau bod staff a chleifion yn cael eu diogelu rhag y firws hwn a gludir yn y gwaed.

Fe'n hysbyswyd nad oedd unrhyw fân lawdriniaethau'n cael eu cynnal yn y practis.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai biniau glanweithiol addas a weithredir â throed gael eu darparu yn yr holl doiledau.

Dylai bin mwy addas a weithredir â phedal troed gael ei osod yn y man aros yn lle'r bin gwastraff presennol.

Rheoli meddyginiaethau

Canfuom fod systemau rheoli meddyginiaeth yn dda, yn ddiogel, ac yn unol â llyfr fformiwlaâu a chanllawiau rhagnodi'r bwrdd iechyd.

Gallai'r cleifion gael mynediad at bresgripsiynau amlroddadwy trwy alw yn y feddygfa'n bersonol, ar-lein, neu drwy asiantaethau eraill megis y fferyllfa leol.

Roedd unrhyw ymholiadau ynglŷn â meddyginiaeth yn cael eu cofnodi ar y system gyfrifiadur ac yn cael eu hadolygu gan un o'r meddygon.

Roedd fferylllydd rhan amser a staff fferyllfa yn cael eu cyflogi. Yn ogystal, mae fferylllydd a gyflogir gan y bwrdd iechyd yn ymweld â'r practis bob wythnos i gynorthwyo staff ag ymholiadau ac archwiliadau.

Yn ystod taith o gwmpas yr adeilad, gwelsom nad oedd y drws a oedd yn arwain o'r coridor ger yr ystafelloedd ymgynghori i'r fferyllfa wedi'i gloi. Gan fod mynediad gan gleifion i'r coridor hwn, gwnaethom argymhell y dylai'r drws gael ei gloi er mwyn osgoi mynediad heb awdurdod i'r fferyllfa.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r drws sy'n arwain o'r coridor ger yr ystafelloedd ymgynghori i'r fferyllfa gael ei gloi er mwyn osgoi mynediad heb awdurdod i'r fferyllfa.

Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Canfuom fod polisi amddiffyn plant a pholisi diogelu oedolion ar waith ynghyd â siartiau llif, a oedd yn cynnwys rhifau cyswllt lleol ar gyfer hysbysu am unrhyw bryderon.

Roedd un o'r meddygon teulu'n ysgwyddo rôl arweiniol ar gyfer y gwaith o ddiogelu oedolion a phlant o fewn y practis, ac roedd wedi derbyn hyfforddiant ar y pwnc ar lefel briodol. Canfuom hefyd fod holl aelodau eraill y staff wedi derbyn hyfforddiant hyd at Lefel 2 mewn diogelu oedolion a phlant. Gwnaethom amlygu'r angen i'r holl staff clinigol gwblhau hyfforddiant diogelu ar Lefel 3.

Caiff achosion diogelu plant ac oedolion eu hamlygu ar y system cofnodion electronig er mwyn i'r staff fod yn ymwybodol o broblemau o'r fath. Er hynny, nid oedd yr holl wybodaeth ynglŷn â diogelu plant yn cael ei chofnodi ar y system electronig o ganlyniad i bryderon diogelu data. Gwnaethom argymhell y dylai'r holl wybodaeth o'r fath gael ei chofnodi, mewn ffordd gyflawn, ar y system cofnodion electronig, er mwyn sicrhau mynediad rhwydd i glinigwyr eraill, ac i sicrhau trywydd archwilio cadarn.

Roedd gan y practis pecyn sefydlu ar gyfer meddygon teulu locwm. Fodd bynnag, canfuom fod angen adolygu a diweddarau'r pecyn hwn, i gynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r prosesau diogelu.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid gwneud trefniadau i'r holl staff clinigol gwblhau hyfforddiant diogelu ar Lefel 3.

Dylai'r holl wybodaeth ynglŷn â diogelu plant gael ei chofnodi ar y system electronig.

Dylai'r pecyn sefydlu ar gyfer meddygon teulu locwm gael ei adolygu a'i ddiweddar, a dylid ychwanegu gwybodaeth ynglŷn â phrosesau sefydlu.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd gan y practis drefniadau addas ar waith i hysbysu am ddigwyddiadau yn ymwneud â diogelwch cleifion a digwyddiadau arwyddocaol. Fodd bynnag, nid oedd llawer o dystiolaeth i ddangos sut roedd yr hyn a ddysgwyd o ddigwyddiadau o'r fath yn cael ei rannu â'r staff.

Gwnaethom siarad ag aelodau o dîm y practis ar ddiwrnod ein harolygiad ac roeddem yn gallu cadarnhau bod staff yn cael eu hannog a'u grymuso i leisio unrhyw bryderon a allai fod ganddynt ynghylch diogelwch cleifion a/neu eu diogelwch eu hunain.

Gwnaethom edrych ar offer dadebru mewn argyfwng y practis, a bag argyfwng meddygon teulu unigol, a chanfuom eu bod yn cael eu gwirio'n rheolaidd a'u bod wedi'u cyfarparu'n dda ar y cyfan, gydag offer dadebru ar wahân i oedolion a phlant. Serch hynny, gwnaethom argymhell y dylid adolygu a safoni cynhwysion y bagiau argyfwng, gan ystyried cynnwys y feddyginiaeth sydd fwyaf tebygol o fod ei hangen mewn argyfwng, megis adrenalin, diazepam a benzylpenisilin.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis gymryd camau i sicrhau bod yr hyn a ddysgir o ddigwyddiadau diogelwch cleifion a digwyddiadau arwyddocaol yn cael ei rannu â'r staff.

Dylid adolygu a safoni cynhwysion y bagiau argyfwng, gan ystyried cynnwys y feddyginiaeth sydd fwyaf tebygol o fod ei hangen mewn argyfwng, megis adrenalin, diazepam a benzylpenisilin.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Canfuom fod polisïau a gweithdrefnau llywodraethu gwybodaeth clir ar waith.

Cadw cofnodion

Gwnaethom edrych ar hapsampl o gofnodion cleifion a chanfod bod y safon o gadw cofnodion yn dda iawn yn gyffredinol. Fodd bynnag, canfuom fod angen diweddarau rhai o nodiadau'r cleifion er mwyn adlewyrchu eu problemau meddygol cyfredol a gweithredol yn gywir.

Canfuom hefyd rai anghysondebau o ran y feddyginiaeth a ragnodwyd mewn perthynas â'r diagnosis clinigol. Mae angen adolygu a diweddarau'r cofnodion hyn.

Canfuom fod y gwaith o gofnodi cydsyniad a cheisiadau am hebryngwr yn anghyson.

Roedd ymweliadau cartref yn cael eu cofnodi mewn llyfr er mwyn cyfeirio yn ôl atynt yn rhwydd a dyrannu gwaith. Fodd bynnag, rydym yn argymhell yn gryf y dylai'r wybodaeth hon gael ei chofnodi ar y system electronig er mwyn caniatáu archwilio.

Roedd canllawiau crynhoi ysgrifenedig ar waith. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell y dylai cofnodion cryno gael eu harchwilio'n rheolaidd i sicrhau cysondeb a chydymffurfiaeth â'r canllawiau. Dylid hefyd ystyried trefnu hyfforddiant ychwanegol ar gyfer y staff sy'n cymryd rhan yn y broses grynhoi.

Canfuom fod angen archwilio atgyfeiriadau a mynd ar eu trywydd yn rheolaidd. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ran atgyfeiriadau triniaeth ganser er mwyn sicrhau bod cleifion wedi cael eu gweld o fewn amserlenni priodol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid diweddarau nodiadau cleifion er mwyn adlewyrchu eu problemau meddygol cyfredol a gweithredol yn gywir.

Dylai nodiadau cleifion gael eu hadolygu a'u diweddarau er mwyn sicrhau bod y

feddyginiaeth a ragnodir mewn perthynas â diagnosis clinigol yn cael ei chofnodi'n gyson gan yr holl glinigwyr.

Dylai nodiadau cleifion gael eu hadolygu a'u diweddarau er mwyn sicrhau bod cydsyniad a cheisiadau am hebryngwr yn cael eu cofnodi'n gyson gan yr holl glinigwyr.

Dylai ymweliadau â chartrefi gael eu cofnodi ar y system electronig er mwyn caniatáu archwilio.

Dylai'r gwaith o grynhoi cofnodion gael ei archwilio'n rheolaidd er mwyn sicrhau cysondeb a chydymffurfiaeth â'r canllawiau. Dylid hefyd ystyried trefnu hyfforddiant ychwanegol i'r staff sy'n cymryd rhan yn y broses grynhoi.

Dylai atgyfeiriadau a chofnodion dilynol gael eu harchwilio'n rheolaidd.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Canfuom dîm o staff a oedd yn canolbwyntio ar gleifion ac a ddywedodd wrthym eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan gydweithwyr yn y practis. Roedd y staff hefyd yn gadarnhaol am y cyfleoedd hyfforddiant oedd ar gael.

Canfuom fod proses ffurfiol ar waith i recriwtio staff a bod gwiriadau cefndir yn cael eu cynnal, yn ôl yr angen, cyn i bobl ddechrau gweithio yn y feddygfa.

Roedd systemau archwilio clinigol a chyffredinol ar waith, a oedd yn caniatáu i staff fyfyrto a gwneud newidiadau a gwelliannau i'w harfer.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Ar y cyfan, canfuom arweinyddiaeth dda ar gyfer y practis a thîm staff sefydlog a oedd yn ymroddedig i ddarparu'r gwasanaethau gorau a allent ar gyfer eu cleifion.

Roedd y staff yn gadarnhaol am yr amgylchedd gweithio a dywedasant wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u cefnogi'n dda gan eu cydweithwyr.

Roedd polisi chwythu'r chwiban ar waith, a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent leisio pryderon wrth uwch staff. Roedd gan y staff fynediad at bolisiâu a gweithdrefnau i'w harwain yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

Yn aml, roedd staff a oedd yn gweithio yn y practis yn ymgymryd â rolau deuil ac yn gweithio'n hyblyg. Roedd hyn yn golygu bod staff yn gallu cyflenwi dros ei gilydd yn ystod absenoldebau, gan leihau'r risg o amharu ar wasanaethau i gleifion.

Roedd diwylliant agored a chynhwysol yn y practis gyda thystiolaeth bod cyfathrebiadau anffurfiol yn digwydd yn rheolaidd rhwng aelodau staff. Gwnaethom amlygu bod angen dull mwy ffurfiol mewn perthynas â chyfarfodydd y meddygon teulu ac adolygiadau gan gymheiriaid er mwyn

sicrhau bod digwyddiadau o'r fath yn cael eu cofnodi'n gywir i adlewyrchu trafodaethau, dysgu a chymau a gymerwyd.

Canfuom fod cynllun 'adfer ar ôl trychineb' cadarn ar waith, a oedd yn cynnwys digwyddiadau megis achosion pandemig/epidemig, tân, llifogydd, a phroblemau TG.

Canfuom hefyd fod cynllun datblygu'r practis ar waith. Lluniwyd hwn ym mis Mehefin 2016.

Canfuom fod rhai o'r drysau tân o fewn y practis yn cael eu dal ar agor â lletem yn ystod ein hymweliad, ac nid oedd rhai eraill yn cau'n llawn ar eu rabedi. Gwnaethom argymhell y dylai'r holl ddrysau tân gael eu cadw ar gau bob amser ac y dylid cymryd camau i sicrhau eu bod yn cau'n llawn ar eu rabedi.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai cyfarfodydd meddygon teulu ac adolygiadau gan gymheiriaid gael eu ffurfioli er mwyn sicrhau bod digwyddiadau o'r fath yn cael eu cofnodi'n gywir i adlewyrchu trafodaethau, dysgu a'r camau a gymerwyd.

Dylai'r holl ddrysau tân gael eu cadw ar gau bob amser a dylid cymryd camau i sicrhau eu bod yn cau'n llawn ar eu rabedi.

Staff ac adnoddau

Y gweithlu

Dangosodd trafodaethau â'r staff ac adolygiad o sampl o gofnodion staff eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth gywir i gyflawni eu swyddogaethau penodol yn y practis. Cadarnhaodd yr aelodau staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael cyfleoedd i fynychu hyfforddiant perthnasol.

Roedd y staff yn gallu disgrifio'u rolau a'u cyfrifoldebau, a gwnaethant ddweud eu bod yn hapus yn eu swyddi. Cadarnhaodd yr holl staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael cyfleoedd i fynychu hyfforddiant perthnasol. Canfuom fod afarniadau blynyddol wedi cael eu cynnal yn rheolaidd.

Canfuom fod proses ffurfiol ar waith i recriwtio staff a bod gwiriadau cefndir yn cael eu cynnal, yn ôl yr angen, cyn i bobl ddechrau gweithio yn y feddygfa.

4. Beth nesaf?

Mae'r gwelliannau a'r pryderon uniongyrchol rydym wedi eu nodi yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau meddygon teulu

Mae arolygiadau fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau meddygon teulu yn derbyn hyd at 12 wythnos o rybudd cyn arolygiad. Mae hyn fel y bydd trefniadau yn gallu cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn peri cyn lleied o amhariad â phosibl i gleifion.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr practisau ar ddiwedd yr arolygiad, a hynny mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut y mae practisau meddygon teulu yn diwallu [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle bo'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg o'r safonau gofal o fewn practisau meddygon teulu.

Mae manylion pellach am sut mae AGIC yn arolygu [practisau meddygon teulu](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Meddygfa Bodowen, Treffynnon

Dyddiad yr arolygiad: 28 Mehefin 2017

Mae'r tabl isod yn nodi unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion lle roedd angen sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Meddygfa Bodowen, Treffynnon

Dyddiad yr arolygiad: 28 Mehefin 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y maen nhw'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Dylid trefnu hyfforddiant ar gyfer yr holl aelodau staff sy'n ymgymryd â dyletswyddau hebryngwr.	4.1 Gofal ag urddas	Rydym yn chwilio'n weithredol am hyfforddiant hebryngwr ar gyfer yr holl staff sy'n ymgymryd â'r swyddogaeth.	Marisa Oulton Rheolwr y practis	Mawrth 2018
Dylid gosod cloch alw yn y toiled anabl pe bai angen cymorth ar unrhyw glaf sy'n defnyddio'r cyfleuster hwn.		Casglu tri dyfynbris yn unol â phrotocol y practis, a chyflawni'r gwaith yn ôl yr	Marisa Oulton Rheolwr y practis	Hydref 2017

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		angen.		
<p>Dylai'r practis ystyried darparu bwrdd dynodedig yn arddangos gwybodaeth yn benodol i ofalwyr.</p> <p>Dylai'r practis ystyried gosod monitor teledu o fewn y man aros er mwyn arddangos gwybodaeth ynglŷn â hyrwyddo iechyd a gwybodaeth arall a allai fod yn ddefnyddiol i gleifion.</p>	4.2 Gwybodaeth cleifion	<p>Trefnwyd cyfarfod ar 16 Awst 2017 gyda'r hwylusydd ysbyty cymunedol o NEWCIS i drafod y wybodaeth benodol ar gyfer gofalwyr.</p> <p>Trefnu sesiwn hyfforddi i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r staff.</p> <p>Casglu tri dyfynbris yn unol â phrotocol y practis. Caiff hyn ei ystyried yn ddibynnol ar y gost.</p> <p>Rydym yn aros am wybodaeth ynglŷn â "monitorau teledu am ddim".</p>	<p>Marisa Oulton Rheolwr y practis</p> <p>Lindsay Davies Rheolwr y dderbynfa</p> <p>Marisa Oulton Rheolwr y practis</p>	<p>Medi 2017</p> <p>Hydref 2017</p> <p>Rhagfyr 2017</p>
Dylai'r practis sicrhau bod y wybodaeth (posteri a thafleini) ar gael yn Gymraeg.	3.2 Cyfathrebu'n effeithiol	<p>Mae'r daflen i gleifion bellach ar gael yn y Gymraeg.</p> <p>Rhoddir pob ystyriaeth i sicrhau bod</p>	<p>Marisa Oulton Rheolwr y practis</p>	<p>Gydag effaith ar unwaith</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Dylid ystyried darparu cadeiriau mwy addas o fewn y man aros ar gyfer pobl hŷn neu bobl gydag anawsterau symudedd.</p> <p>Dylai cloch alw gael ei rhoi yn y man is ar ddesg y dderbynfa sy'n caniatáu mynediad i bobl anabl.</p>	6.1 Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth	<p>posteri a thafleuni ar gael yn Gymraeg.</p> <p>Casglu tri dyfynbris yn unol â phrotocol y practis, ac archebu cadeiriau addas ar gyfer cleifion hŷn neu gleifion sydd ag anawsterau symudedd i'w rhoi yn yr ystafell aros yn ôl yr angen.</p> <p>Archebu cloch alw a'i gosod wrth ddesg is y dderbynfa.</p>	<p>Marisa Oulton Rheolwr y practis</p> <p>Marisa Oulton Rheolwr y practis</p>	<p>Medi 2017</p> <p>Medi 2017</p>
Dylai'r practis ystyried sefydlu grŵp cyfranogiad cleifion fel modd ychwanegol o gasglu adborth am y gwasanaeth a ddarperir. Gallai hyn weithredu hefyd fel system ar gyfer rhannu gwybodaeth am gynlluniau'r gwasanaeth ar gyfer y dyfodol.	6.3 Gwrando a dysgu o adborth	<p>Byddwn yn ystyried sefydlu grŵp cyfranogiad cleifion yn y dyfodol.</p> <p>Cynhelir rhagor o drafodaethau ar lefel clwstwr.</p>	Marisa Oulton Rheolwr y practis	Mawrth 2018

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
<p>Dylid ystyried rhoi gwelyau archwilio newydd.</p> <p>Dylid rhoi gorchuddion addas ar y rheiddiaduron i leihau'r perygl o achosi niwed i'r cleifion a'r staff.</p> <p>Dylai'r practis adolygu'r defnydd o'r man ger yr ystafelloedd ymgynghori fel man aros ar gyfer y cleifion y mae angen eu trosglwyddo i'r ysbyty mewn ambiwlans.</p>	2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch	<p>Casglu tri dyfynbris yn unol â phrotocol y practis ac archebu gwelyau archwilio newydd pan fydd arian ar gael.</p> <p>Casglu tri dyfynbris yn unol â phrotocol y practis a chyflawni'r gwaith yn ôl yr angen.</p> <p>Bydd y man a ddefnyddir i gleifion sydd angen eu trosglwyddo i'r ysbyty mewn ambiwlans yn cael ei adolygu, a bydd asesiad risg priodol yn cael ei gynnal.</p>	<p>Marisa Oulton Rheolwr y practis</p> <p>Marisa Oulton Rheolwr y practis</p> <p>Marisa Oulton Rheolwr y practis</p> <p>Shelley Lewis Uwch-ymarferydd nyrsio</p>	<p>Mawrth 2018</p> <p>Hydref 2017</p> <p>Awst 2017</p>
<p>Dylai biniau glanweithiol addas a weithredir â throed gael eu darparu yn yr holl doiledau.</p> <p>Dylai bin mwy addas a weithredir â phedal troed gael ei osod yn y man aros yn lle'r bin gwastraff presennol.</p>	2.4 Atal a rheoli heintiau a dadheintio	<p>Bydd biniau glanweithiol a weithredir â throed yn cael eu harchebu a'u gosod i'w defnyddio yn yr holl doiledau.</p> <p>Bydd bin a weithredir â throed yn cael ei osod yn lle'r bin presennol yn y man aros.</p>	<p>Marisa Oulton Rheolwr y practis</p> <p>Marisa Oulton Rheolwr y practis</p>	<p>Hydref 2017</p> <p>Medi 2017</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Dylai'r drws sy'n arwain o'r coridor ger yr ystafelloedd ymgynghori i'r fferyllfa gael ei gloi er mwyn osgoi mynediad heb awdurdod i'r fferyllfa.</p>	<p>2.6 Rheoli meddyginiaethau</p>	<p>Bydd bysellbad neu ddyfais gloi debyg yn cael ei gosod ar y drws sy'n arwain o'r ystafelloedd ymgynghori i'r fferyllfa er mwyn sicrhau nad yw cleifion/ymwelwyr heb awdurdod yn cael mynediad.</p>	<p>Marisa Oulton Rheolwr y practis</p>	<p>Hydref 2017</p>
<p>Rhaid i'r holl staff clinigol gwblhau hyfforddiant diogelu ar Lefel 3.</p> <p>Dylai'r holl wybodaeth ynglŷn â diogelu plant gael ei chofnodi ar y system electronig.</p> <p>Dylai'r pecyn i feddygon teulu locwm gael ei adolygu a'i ddiweddarau, a dylai gwybodaeth am brosesau diogelu gael ei chynnwys.</p>	<p>2.7 Diogelu plant a diogelu oedolion mewn perygl</p>	<p>Mae'r holl feddygon wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ar Lefel 3. Bydd hyfforddiant yn y dyfodol yn cynnwys yr holl staff clinigol ar Lefel 3.</p> <p>Yn dilyn arolygiad AGIC ar 28 Mehefin 2017, mae'r holl wybodaeth ynglŷn â diogelu plant yn cael ei chofnodi ar y system electronig bellach.</p> <p>Bydd y pecyn i feddygon teulu locwm yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau fel y gofynnwyd. Bydd gwybodaeth am y broses ddiogelu yn cael ei chynnwys yn y pecyn.</p>	<p>Marisa Oulton Rheolwr y practis</p> <p>Lindsay Davies Rheolwr y dderbynfa</p> <p>Marisa Oulton Rheolwr y practis</p>	<p>Mawrth 2018</p> <p>Mehefin 2017</p> <p>Rhagfyr 2017</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n rhaid i'r practis gymryd camau i sicrhau bod yr hyn a ddysgir o ddigwyddiadau diogelwch cleifion a digwyddiadau arwyddocaol yn cael ei rannu â'r staff.</p> <p>Dylid adolygu a safoni cynhwysion y bagiau argyfwng, gan ystyried cynnwys y feddyginiaeth sydd fwyaf tebygol o fod ei hangen mewn argyfwng, megis adrenalin, diazepam a benzylpenisilin.</p>	3.1 Gofal diogel a chlinigol effeithiol	<p>Bydd digwyddiadau arwyddocaol a digwyddiadau diogelwch cleifion yn cael eu trafod â'u rhannu â'r holl staff yn ystod cyfarfodydd staff. Bydd cofnodion ar gael i'r holl staff nad ydynt yn gallu dod i gyfarfodydd staff gan nad ydynt ar gael bob amser neu ar wyliau blynyddol.</p> <p>Bydd protocol y practis yn cael ei adolygu mewn perthynas â chynnwys y feddyginiaeth sydd fwyaf tebygol o fod ei hangen mewn argyfwng.</p>	<p>Marisa Oulton Rheolwr y practis</p> <p>Yr holl bartneriaid Elaine Gurney Fferyllydd</p>	<p>Medi 2017</p> <p>Medi 2017</p>
Dylid diweddarau nodiadau cleifion er mwyn adlewyrchu eu problemau meddygol cyfredol a gweithredol yn gywir.	3.5 Cadw cofnodion	Bydd archwiliad yn cael ei gynnal ar nodiadau'r cleifion. Bydd unrhyw wybodaeth y canfyddir nad yw'n gywir yn cael ei diweddarau yn ôl yr angen.		Mawrth 2018

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Dylai nodiadau cleifion gael eu hadolygu a'u diweddarau er mwyn sicrhau bod y feddyginiaeth a ragnodir mewn perthynas â diagnosis clinigol yn cael ei chofnodi'n gyson gan yr holl glinigwyr.</p>		<p>Bydd archwiliad yn cael ei gynnal i sicrhau bod y feddyginiaeth a ragnodir yn gysylltiedig â diagnosis clinigol.</p>	<p>Elaine Gurney Fferyllydd</p>	<p>Mawrth 2018</p>
<p>Dylai nodiadau cleifion gael eu hadolygu a'u diweddarau er mwyn sicrhau bod cydsyniad a cheisiadau am hebryngwyr yn cael eu cofnodi'n gyson gan yr holl glinigwyr.</p>		<p>Bydd yr holl staff clinigol yn sicrhau bod cydsyniad a cheisiadau am hebryngwr yn cael eu cofnodi.</p>	<p>Marisa Oulton Rheolwr y practis</p>	<p>Medi 2017</p>
<p>Dylai'r holl ymweliadau â chartrefi gael eu cofnodi ar y system electronig er mwyn caniatáu archwilio.</p>		<p>Bydd y broses yn cael ei harchwilio'n chwarterol.</p>	<p>Marisa Oulton Lindsay Davies</p>	<p>Medi 2017</p>
<p>Dylai'r gwaith o grynhoi cofnodion gael ei archwilio'n rheolaidd er mwyn sicrhau cysondeb a chydymffurfiaeth â'r canllawiau.</p>		<p>Bydd y broses yn cael ei thrafod â darparwyr systemau clinigol a bydd staff y feddygfa yn ychwanegu proses electronig at ddibenion archwilio.</p>	<p>Lindsay Davies Rheolwr y dderbynfa</p>	<p>Archwiliad cychwynnol ym mis Medi 2017</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Dylid ystyried trefnu hyfforddiant pellach ar gyfer staff sy'n cymryd rhan yn y broses grynhoi.</p> <p>Dylai atgyfeiriadau a chofnodion dilynol gael eu harchwilio'n rheolaidd.</p>		<p>perthynas â chrynhoi cofnodion cleifion.</p> <p>Bydd hyfforddiant staff ychwanegol yn cael ei drefnu fel bo'n briodol ar gyfer staff sy'n cymryd rhan yn y broses grynhoi.</p> <p>Bydd yr holl archwiliadau brys yn cael eu harchwilio'n chwarterol.</p>	<p>Lindsay Davies</p> <p>Rheolwr y dderbynfa</p> <p>Clare Birks</p> <p>Ysgrifennydd</p>	<p>Awst 2017</p> <p>Awst 2017</p>
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
<p>Dylai cyfarfodydd meddygon teulu ac adolygiadau gan gymheiriaid gael eu ffurfioli er mwyn sicrhau bod digwyddiadau o'r fath yn cael eu cofnodi'n gywir i adlewyrchu trafodaethau, dysgu a'r camau a gymerwyd.</p>	<p>Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd</p>	<p>Bydd cyfarfodydd meddygon teulu yn cael eu cofnodi a'u ffurfioli yn y dyfodol, er mwyn sicrhau bod trafodaethau'n cael eu hadlewyrchu'n gywir.</p>	<p>Marisa Oulton</p> <p>Rheolwr y practis</p>	<p>Gorffennaf 2017</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r holl ddrysau tân gael eu cadw ar gau bob amser a dylid cymryd camau i sicrhau eu bod yn cau'n llawn ar eu rabedi.		Bydd dalwyr drws priodol yn cael eu gosod ar y drysau tân a nodwyd yn ystod yr arolygiad. Bydd y dalwyr drws yn sicrhau bod y drysau tân yn cael eu cadw ar agor yn ddiogel ac yn unol â'r gyfraith. Bydd y dalwyr drws yn rhyddhau'r drws tân mewn argyfwng, megis pan fo'r larwm tân yn canu, drwy ganfod yr arwydd acwstig o'r larwm tân.	Marisa Oulton Rheolwr y practis	Medi 2017

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Mrs Marisa Oulton

Swydd: Rheolwr y practis

Dyddiad: 3 Awst 2017